Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid ar
ddydd Mercher, 13 Gorffennaf 2022

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Chris James, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Carl Worrall a Hugh R M Hughes

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Wyn Evans

Swyddogion yn bresennol: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Gogledd, Mrs Siân Holder, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, De, Mr Alan Davies – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Ms Nia Jones – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth, Ms Elin Prysor –Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am – 11:40am)

1 Personal
.Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Cerys Jones ar enedigaeth ei mab.

2 Ymddiheuriadau
Roedd y Cynghorwyr Cerys Jones, Siân Maehrlein a Mark Strong wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod.

3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu
Dim.

4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mehefin 2022
PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2022 yn gywir.

Materion yn codi
Dim.

5 Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio am y ceisiadau cynllunio canlynol, a ystyriwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach:-

A201119. Cadw Odyn Sychu Plociau Biomas, a dwy Simnai a defnydd parhaus o Foeler Rhif 1 yn unig (yng nghanol yr adeilad) yn dilyn

gweithgarwch profi a oedd yn ymwneud â Chaniatâd Cynllunio Dros Dro A190302, Cae Celyn, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan

GWRTHOD y cais oherwydd y byddai cadw'r cynnig yn debygol o arwain at niwed i amwynder preswyl y preswylwyr cyfagos, yn groes i ddarpariaethau Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru ac i bolisïau DM06, LU25 a DM22 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 a fabwysiadwyd

6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

A200674 Caniatâd Cynllunio Llawn er mwyn Codi Uned Dofednod ar Fferm a fydd yn dal 32,000 o Ieir Buarth (Cynhyrchu Wyau), ynghyd â Biniau Bwydo cysylltiedig, Mynediad mewnol ar y Fferm a Gwaith Cysylltiedig, Pwllpridd, Lledrod, Aberystwyth

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau ac yn unol â chanlyniad yr Asesiad Rheoliadau Cynefin

---

Anerchodd Mr Aled Jones (Ymgeisydd) a Mr Llŷr Evans, (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r ychwanegiad dros dro i'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu mewn ymateb i Covid-19

A210363 Codi adeilad amaethyddol er mwyn cadw stoc ifanc (buarth gwellt), Alltgoch, Silian

CYFEIRIO'R cais i Banel Archwilio Safle yn unol â Pharagraff 1, 2 a 3 y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

A210523 Datblygiad Preswyl Mewnlenwol o 7 Annedd gan gynnwys Anheddau Fforddiadwy (i'w trafod), Tir yn Wenfryn Ffos-y-ffin, Aberaeron

GOHIRIO'R penderfyniad am y cais oherwydd bod yr asiant wedi dosbarthu gwybodaeth newydd cyn y cyfarfod, yr oedd gofyn i swyddogion cynllunio a phriffyrdd ei hystyried, a chyflwynir y cais eto mewn cyfarfod yn y dyfodol os na fyddai modd i'r holl bartïon gytuno.

7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 Apeliadau

CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 10 Awst 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____